OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3274

## Gorchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) at ddibenion achosion, sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Sir Gwynedd fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd 1994(**1**);

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

(**1**) Mae enw'r Sir wedi'i newid o Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd i Wynedd yn unol ag adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.